



Animal &
Plant Health
Agency



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Swydd Wag: Uwch-arolygydd Milfeddygol

Cyfeirnod y Swyddi Gwag: 240037

Graddfa: Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)

Cyflog: £37,295 - £41,425

Math o Gontract: Parhaol

Lleoliadau: Ceir manylion am y lleoliadau yn yr hysbysebion ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban

Dyddiad Cau: 12/12/2022

Noder: Er gwybodaeth yn unig y mae cynnwys y Pecyn hwn. Nid yw'n rhan o'r asesiad na'r broses ddethol.



Animal &
Plant Health
Agency



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Mae hon yn ymgyrch dreigl 10 wythnos, sy'n golygu y caiff ymgeiswyr eu sifftio a'u cyfweld mewn tranche pan fydd yr hysbyseb yn fyw. Efallai y bydd gofyn i chi fynychu cyfweiliad ar fyr rybudd (5 diwrnod gwaith).

Rhif Cyfeirnod y Swyddi Gwag: 240037

Ewch i [Home - Careers as an APHA Vet \(aphavets.co.uk\)](http://aphavets.co.uk), sef gwefan Gyrfaedd Milfeddygol APHA.

Noder: Er gwybodaeth yn unig y mae cynnwys y Pecyn hwn. Nid yw'n rhan o'r asesiad na'r broses ddethol.



Animal &
Plant Health
Agency

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Pecyn Gwybodaeth i
Ymgeiswyr



Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn un o asiantaethau'r llywodraeth sy'n rhan o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – DEFRA

Mae pencadlys APHA wedi'i lleoli yn Weybridge, Surrey ac rydym yn cyflogi tua 2,200 o staff, wedi'u lleoli mewn safleoedd amrywiol ledled y DU.

Mae gennym un genhadaeth, sef diogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pawb mewn cymdeithas, yr amgylchedd a'r economi – ac mae pob un o'n cyflogeion yn frwdfrydig dros gyflawni'r genhadaeth hon.

Pam ymuno ag APHA?

Gair o Groeso gan Brif Weithredwr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Helo. David ydw i, Prif Swyddog Gweithredol APHA. Os ydych yn darllen hwn yna rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud cais i ymuno â'n sefydliad sy'n arwain yn rhyngwladol ac y byddwn yn cydweithio yn y dyfodol agos!

Mae iechyd ein hamgylchedd, ein planhigion, ein hanifeiliaid a'n gwenyn o bwys nawr yn fwy nag erioed. Os ymunwch â ni byddwch yn rhan o dîm anhygoel ac amrywiol, yn gweithio ar y rheng flaen yn ymchwilio ac yn gweithredu i ddiogelu iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn Y Deyrnas Unedig.

Nid yn unig y bydd eich gwaith yn gwneud gwahaniaeth yn y DU ond bydd eich cyfraniad hefyd yn gwneud gwahaniaeth i ymdrechion byd-eang i reoli a dileu clefydau mewn planhigion ac anifeiliaid ac i ddiogelu bioamrywiaeth fyd-eang.

Ein blaenoriaethau allweddol yw:

- Rheoli a gwaredu clefydau a phlâu anifeiliaid a phlanhigion, lleihau'r risg o fygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Darparu gwasanaethau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, planhigion ac iechyd gwenyn.
- Rheoli achosion o blâu a chlefydau yn gyflym; gan barhau i gynnal a meithrin y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i gyflawni busnes craidd a darparu gwasanaethau a sicrhau ymateb effeithlon i achosion o glefyd.
- Parhau i addasu a rhoi cynlluniau ymateb i achosion o glefydau ar waith a dysgu gwersi yn sgil achosion o glefydau, gan roi unrhyw welliannau sydd eu hangen ar waith.
- Darparu tystiolaeth a chynghor sy'n seiliedig ar wyddoniaeth er mwyn llywio gwaith y rhai sy'n llunio polisiau.
- Cynnal gallu milfeddygol a gwyddonol arbenigol cenedlaethol a rhyngwladol a'n henw da

Dewch i ymuno â ni a byddwch yn rhan o rywbeth arbennig gan wneud gwahaniaeth bob diwrnod!




Croeso i APHA

Rydym yn diogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

Mae ein pencadlys wedi'i lleoli yn Weybridge, Surrey. Rydym yn cyflogi tua 2,200 o aelodau o staff, sydd wedi'u lleoli mewn safleoedd amrywiol ledled y DU.

Rydym yn gyfrifol am y canlynol:

- nodi a rheoli clefydau endemig ac egsotig a phlâu mewn anifeiliaid, planhigion a gwenyn, a chadw golwg ar blâu a chlefydau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg
- ymchwil wyddonol mewn meysydd megis clefydau bacterol, feirysol, prion a pharasitig a brechlynnau, a diogelwch bwyd; gweithredu fel labordy cyfeirio rhyngwladol ar gyfer llawer o glefydau anifeiliaid fferm
- hwyluso masnachu rhyngwladol mewn anifeiliaid, cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, a phlanhigion
- diogelu bywyd gwyllt mewn perygl drwy drwyddedu a chofrestru
- rheoli rhaglen sy'n cynnwys archwilio gwenynfeydd (gwenyn), diagnosteg, ymchwil a datblygu a hyfforddiant a chyngor
- rheoleiddio'r gwaith o waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg y bydd sylweddau a allai fod yn beryglus yn ymuno â'r gadwyn fwyd



Animal & Plant Health Agency

- Why we do it
- How we do it
- What we achieve

Mae APHA yn asiantaeth weithredol, a noddir gan Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban

Beth sy'n gwneud APHA yn lle gwych i weithio?

Ein Pobl

Mae tua 2,200 o bobl yn gweithio i APHA, ac rydym yn dîm amrywiol ac aml-leoliad. Mae hefyd yn adeg gyffrous i ymuno ag APHA gan ein bod yn sefydliad sy'n tyfu ac yn parhau i gryfhau partneriaethau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Gwobrau

Mae gennym Gynllun Cydnabod Staff, ac mae ein cynllun diolch a gwobrwyo arbennig yn rhoi cydnabyddiaeth uniongyrchol i staff, ac mae ein seremoni wobrwyo yn ystod y flwyddyn a blynyddol yn gwobrwyo gwaith rhagorol.

Pensiwn

Mae cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn rhan werthfawr iawn o'ch pecyn gwobrwyo. Caiff y rhan fwyaf o werth y pensiwn ei dalu gan APHA. Byddwch yn cael cyfle i ymuno ag un o ddau gynllun. Mae Alpha yn gynllun pensiwn Buddiannau Diffiniedig sy'n seiliedig ar enillion eich gyrfa ar gyfartaledd. Mae Partnership yn gynllun pensiwn â Chyfraniadau Diffiniedig.

Bydd eich pensiwn yn parhau i ddarparu buddiannau gwerthfawr i chi a'ch teulu os byddwch yn rhy sâl i barhau i weithio neu'n marw cyn i chi ymddeol.


Buddiannau eraill


Mae gennym amrywiaeth o fesurau ar waith i helpu gyda'ch iechyd corfforol ac emosiynol. Rydym yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion iechyd. Fodd bynnag, os na fyddwch yn ddigon da i weithio, rydym yn cynnig tâl salwch galwedigaethol, sy'n cynyddu yn ôl hyd gwasanaeth.

Cynigir absenoldeb â thâl ar gyfer sefyllfaoedd eraill, gan gynnwys absenoldeb yn ymwneud â theulu, gwirfoddoli a milwyr wrth gefn, yn ogystal ag amrywiaeth o fenthyciadau di-log gwahanol, er mwyn helpu gyda chostau cymudo.

Lleoliad

Mae'r swyddi hyn yn cael eu hysbysebu ar sail ardal gyflawni ranbarthol ac maent wedi'u lleoli yn swyddfeydd APHA ledled y DU.





Uwch-arolygydd Milfeddygol

Y gwaith y byddwch yn ei wneud

Disgrifiad Swydd

Mae rôl Uwch-arolygydd Milfeddygol yn cynnwys amrywiaeth eang o waith, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Ymateb i ddigwyddiadau a brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid hysbysadwy
- Ymchwilio i glefydau anifeiliaid mewn da byw fferm drwy;
 - ymgymryd ag ymchwiliadau ar ffermydd ac ymchwiliadau maes
 - archwilio anifeiliaid fferm i gefnogi diagnosis gwahaniaethol o glefydau
 - cynnal archwiliadau post-mortem pan fo'n briodol
 - casglu a chyflwyno samplau priodol ar gyfer profion labordy
 - casglu a dehongli data perthnasol i gefnogi penderfyniadau
 - rhoi gwybod am ganfyddiadau ac argymhellion
- Ymgymryd ag ymchwiliadau lles adweithiol a gwaith goruchwyllo. Gan gynnwys lles anifeiliaid fferm wrth iddynt gael eu cludo, pan gânt eu lladd a phan fyddant yn cael eu cadw ar ddaliadau amaethyddol.
- Arolygu, Cymeradwyo ac Archwilio safleoedd mewn amrywiaeth o leoliadau, o sŵau i ffatrioedd prosesu bwyd anifeiliaid anwes, a llawer o leoliadau eraill

• Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau statudol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid.

• Meithrin cydberthnasau cydweithredol ag amrywiaeth o bartneriaid gwerthfawr, gan gynnwys awdurdodau lleol, cynrychiolwyr y diwydiant a milfeddygon nad ydynt yn gweithio i APHA

• Ymgymryd â swm rhesymol o waith ar rota dyletswyddau a rota y tu allan i oriau



Eich Cyfrifoldebau

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd;

- yn gallu ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid mewn modd hyderus a phroffesiynol
- â rhywfaint o brofiad o weithio mewn timau â sgiliau a disgyblaethau gwahanol
- yn gallu ymdopi â chyfrifoldeb yn hyderus wrth wynebu heriau ac addasu i sefyllfaoedd newydd yn hyblyg
- yn gallu llunio adroddiadau i gyfleu gwybodaeth filfeddygol
- yn gallu cadw cofnodion ardderchog ac yn deall pwysigrwydd archwilio a phrosesau sy'n cynnal allbynnau o safon
- yn meddu ar rywfaint o brofiad ymarferol o waith milfeddygol gan gynnwys, yn ddelfrydol, trin anifeiliaid mawr a medrusrwydd mewn technegau rheolaidd a sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddatblygu'n Filfeddyg Gwladol



Gwybodaeth am y Swydd Wag

Teitl y Swydd a'r Sefydliad

Uwch-arolygydd Milfeddygol (SVI), Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Cyfeirnod y swydd wag

240037

Lleoliad

Mae swyddi gwag ar gael yn Bridgewater, Caernarfon, Canterbury, Caerdydd, Caerfyrddin, Crewe, Caerwysg, Hamilton, Horley, Inverness, Inverurie, Launceston, Leicester, Lincoln, Llandrindod Wells, Manceinion, Newcastle-Upon-Tyne, Preston, Shrewsbury, Stafford, Truro, Warwick, Weymouth a Worcester ar hyn o bryd. Rydym yn eich annog i wneud cais gan y bydd y swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r rhestr wrth gefn o'r ymgyrch hon. Caiff pob swydd ei chynnig yn nhrefn teilyngdod yn seiliedig ar y lleoliad ac anghenion busnes. Gallwch ddewis Cenedlaethol os ydych yn hapus i gael eich lleoli unrhyw le yn y DU.

Rydym am gefnogi eich lles drwy sicrhau bod gweithio hyblyg wrth wraidd yr hyn rydym yn ei gynnig i bobl. Mae ein polisïau gweithio hyblyg yn creu amgylchedd lle mae rheolwyr a chyflogeion yn hapus ac yn gyfforddus i siarad am opsiynau gweithio hyblyg. Mae'r rhain yn cynnwys ble rydych yn gweithio, pryd rydych yn gweithio a sut rydych yn gweithio. Mae'r trafodaethau hyn yn helpu i gydbwyso'r rhyddid i ddewis â'r cyfrifoldeb i ddiwallu anghenion busnes.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch gyfle i drafod eich trefniadau gwaith gyda'ch rheolwr newydd cyn i ni roi cynnig swydd derfynol i chi.

Graddfa a Chyflog

Mae'r cyflog ar gyfer y swydd hon o fewn band Gradd Uwch-swyddog Gweithredol Cenedlaethol Defra: £37,295 - £41,425

Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu talu o fewn ystodau cyflog Defra. Bydd cyflog Gweision Sifil presennol yn cael ei gyfrifo yn unol â rheolau'r adran ar dalu wrth drosglwyddo a thalu wrth ddyrchafu.

Math o Contract

Parhaol

Caiff ymgeiswyr allanol gynnig contract APHA parhaol. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion Cyrff Cyhoeddus Anadrannol achrededig.

Caiff Gweision Sifil presennol gynnig y swydd ar sail trosglwyddiad parhaol o'u hadran bresennol i APHA

Cliriad Diogelwch

Ar gyfer pob swydd, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gliriad diogelwch sylfaenol. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr sy'n cael swydd mewn rhai lleoliadau yn destun cliriad uwch oherwydd gofynion diogelwch y lleoliad hwnnw. Caiff cynigion gwaith ar gyfer y swyddi hyn eu gwneud ar sail teilyngdod. Dim ond ar ôl cael cynnig swydd y cynhelir y broses fetio diogelwch.



Y Broses Ddethol

Caiff pobl eu dethol i'w recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac ar sail teilyngdod

Ein Proses Ddethol

Caiff eich cais ei asesu gan ddefnyddio fframwaith recriwtio Proffiliau Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil. Mae'r fframwaith hwn yn ein galluogi i ddefnyddio cyfuniad o feini prawf i ddisgrifio gofynion y swydd i ymgeiswyr. Yna, mae'n galluogi ymgeiswyr i gyflwyno tystiolaeth yn erbyn y meini prawf hynny yn ystod y broses ddethol. Ni fydd pob un o'r meini prawf yn berthnasol i bob swydd.

Ar gyfer y swydd hon, cewch eich asesu mewn perthynas â'r meysydd a nodir isod;

Ymddygiadau, Cryfderau, Profiad a Sgiliau Technegol.

Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil

Mae Ymddygiadau canlynol y Gwasanaeth Sifil yn hanfodol ar gyfer y swydd hon a byddant yn cael eu profi yn y cyfweiliad.

- Cyfathrebu a Dylanwadu

Ceir manylion llawn Fframwaith Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil [yma](#).

Profiad

Caiff eich profiad ei asesu yn ystod y sifft gan ddefnyddio eich:

- CV gan gynnwys eich hanes swyddi a'ch cymwysterau
- Datganiad o addasrwydd 500 o eiriau. Dylai'r datganiad addasrwydd ddangos sut rydych chi'n bodloni cyfrifoldebau rol y swydd, profiad a gofynion sgiliau.

Technegol

Mae'r wybodaeth, yr aelodaeth a'r cymwysterau canlynol yn hanfodol ar gyfer y swydd hon a byddant yn cael eu profi yn y cyfweiliad:

- Dealltwriaeth o glefydau anifeiliaid egsoftig hysbysadwy ym Mhrydain Fawr.
- Materion lles anifeiliaid yn amaethyddiaeth yn y Mhyradin Fawr.
- Dealltwriaeth o reolaeth clefydau anifeiliaid endemig ym Mhrydain Fawr, megis TB.
- Gwybodaeth filfeddygol
- Gradd Baglor Milfeddygaeth o leiaf, neu'r hyn sy'n cyfateb iddi
- Aelod neu'n Gymrawd o Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

Cryfderau

Gellir profi amrywiaeth o gryfderau sy'n berthnasol i'r rôl hon yn y cyfweiliad.

Y Broses Gwneud Cais

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud i wneud cais

Fel rhan o'r broses gwneud cais, gofynnir i chi gwblhau CV, gan gynnwys hanes Swyddi a chymwysterau, ynghyd â datganiad o addasrwydd. Ar gyfer eich CV, amlinellwch eich rôl bresennol a'ch rolau blaenorol perthnasol a pha mor hir y buoch ym mhob rôl. Rhowch ddisgrifiad cryno o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau

Rhowch ddatganiad o addasrwydd sy'n nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn eich gwneud yn addas ar gyfer y rôl. Ystyriwch yr eitemau yn y disgrifiad swydd a'r cyfrifoldebau a rhowch dystiolaeth sy'n dangos sut rydych yn bodloni'r rhain. Ni ddylai eich datganiad o addasrwydd fod yn fwy na 500 o eiriau. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar y ffurflen gais.

Sut y caiff eich cais ei asesu

Os bydd nifer mawr o geisiadau yn dod i law, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal sifft gychwynnol gan ddefnyddio'r Datganiad o Addasrwydd yn unig. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y sifft gychwynnol yn symud ymlaen i sifft lawn, neu'n syth i gael asesiad/cyfweliad.

Sut rydym yn penderfynu pwy i wahodd i gyfweliad

Caiff rhestr fer ar gyfer cyfweliad ei llunio ar sail teilyngdod. Bydd y panel dethol yn asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan bob un o'r ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a hysbysebiriad a chaiff yr ymgeiswyr â'r sgoriau uchaf eu gwahodd i gyfweliad.

Trefniadau'r cyfweliad

Os byddwch yn llwyddiannus ar y cam gwneud cais, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad lle y byddwch yn cael eich asesu ar sail ymddygiad, cyfathrebu a dylanwadu. Bydd hyn yn cael ei hasesu drwy gyflwyniad. Byddwch yn cael rhagor o fanylion am hyn gyda'r gwahoddiad i gyfweliad.

Trefniadau'r cyfweliad

Os byddwch yn llwyddiannus ar y cam gwneud cais, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad lle y byddwch yn cael eich asesu ar sail ymddygiad, cyfathrebu a dylanwadu. Bydd hyn yn cael ei hasesu drwy gyflwyniad. Byddwch yn cael rhagor o fanylion am hyn gyda'r gwahoddiad i gyfweliad.

Byddwch hefyd yn cael eich asesu ar sail elfennau technegol y rôl;

- Dealltwriaeth o glefydau anifeiliaid egsoftig hysbysadwy ym Mhrydain Fawr.
- Materion lles anifeiliaid yn amaethyddiaeth yn y Mhrydain Fawr.
- Dealltwriaeth o reolaeth clefydau anifeiliaid endemig ym Mhrydain Fawr, megis TB.
- Gwybodaeth filfeddygol

Byddwn hefyd yn gofyn cwestiynau i chi am eich cryfderau a'ch profiad. I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Success Profiles - Candidate Overview \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Gwybodaeth arall

Os ydych yn anabl, rhowch wybod i ni pa addasiadau y gallwn eu rhoi ar waith i'ch helpu drwy'r broses recriwtio.

Mae'n bosibl y caiff ymgeiswyr sy'n bodloni meini prawf y cyfweliad ond na chynigir swydd iddynt eu cadw ar restr wrth gefn am 12 mis ac mae'n bosibl y cynigir rolau tebyg iddynt ar draws yr adran.

Mae Defra yn ymrwymedig i hidlo ceisiadau yn 'ddienw'. Mae hyn yn golygu bod nodweddion adnabod megis eich enw, rhyw, oedran, cyfeiriad yn cael eu dileu o'ch cais hyd nes y bydd y broses o lunio rhestr fer ar gyfer cyfweliad wedi'i chwblhau.

Amserlen

Noder bod yr amserlen hon yn un enghreifftiol ar hyn o bryd a gallai newid. Mae'r amserlen a ragwelir fel a ganlyn:

Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau	12/12/2022
Canlyniadau'r Rhestr Fer Cynnal Cyfweliadau	Sifft cyntaf - i'w gynnal ar geisiadau a dderbynnir cyn 7fed Tachwedd, a chaiff cyfweliadau eu cynnal diwedd mis Tachwedd. Cynhelir yr 2il sifft pan ddaw'r cais i ben 12fed Rhagfyr a chyfweliadau i'w cynnal ym mis Ionawr 2023.
Canlyniadau'r Cyfweliadau	Rhagfyr/Ionawr 2023

Caiff cyfweliadau eu cynnal yn rhithwir drwy Teams.









Gofynnir i ymgeiswyr nodi'r amserlen uchod ac i fod yn hyblyg drwy'r broses recriwtio a dethol gan ei bod yn bosibl na fydd modd cynnig unrhyw ddyddiadau amgen ar gyfer asesiadau neu gyfweliadau.

Lle Gwych i Weithio



Pecyn Gwybodaeth i
Ymgeiswyr

Manteision gweithio i APHA



Buddiannau Defra

Mae Defra yn cynnig pecyn buddiannau deniadol a chystadleuol, gan gynnwys:

Buddiannau Craidd

Cyflog Sylfaenol

Yn seiliedig ar raddfa, sgiliau a phrofiad, lle mae ystodau cyflog a chyflogau unigol yn destun adolygiad bob blwyddyn

Cynllun Pensiwn

Y cynllun pensiwn diodyn yw Alpha – cynllun buddiannau diffiniedig sy'n seiliedig ar gyflog cyfartalog eich gyrfa. Byddwch yn cronni pensiwn ar gyfradd o 2.32% o'ch enillion pensiynadwy bob blwyddyn. Byddwch chi a'ch cyflogwr yn cyfrannu canran o'ch enillion pensiynadwy (yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill) tuag at eich pensiwn. Mae buddiannau'n cynnwys cyfandaliad a fydd yn daladwy i Enwebai Budd-dal Marwolaeth os byddwch yn marw yn ystod eich gwasanaeth.

Fel arall, gallwch ddewis ymuno â chynllun pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig Partnership. Nid oes rhaid i chi gyfrannu at y cynllun hwn. Bydd eich cyflogwr yn cyfrannu at eich pensiwn yn seiliedig ar eich ystod oedran.

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Os byddwch yn dewis cyfrannu, yna bydd eich cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at 3% ychwanegol.

Gwyliau

Swm deniadol o wyliau blyneddol gan ddechrau ar 25 diwrnod a chodi i 30 diwrnod dros 5 mlynedd, yn ogystal â gwyliau banc statudol (pro-rata i weithwyr hyblyg, h.y. gweithwyr rhan-amser a'r rhai sy'n rhannu swydd). Rydym hefyd yn cynnig 1 diwrnod braint ar gyfer pen-blwydd y Frenhines a hyd at 3 diwrnod gwirfoddoli.

Polisiau statudol uwch

Darpariaethau uwch ar gyfer absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu a thadolaeth, ac absenoldeb salwch.

Hyfforddiant a Datblygiad

Rheoli Perfformiad

Cynlluniau perfformiad unigol, dysgu a datblygu sy'n cyfateb i'ch amcanion gyrfa y cytunwyd arnynt a'ch cynlluniau datblygu.

Dysgu a Datblygu

Mae amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi, prentisiaethau, mentraudatblygu arweinyddiaeth

amynediad at ddeunyddiau dysgu a datblygu ar gael, gan gwmpasu sgiliau technegol, rheoli a phersonol.

Absenoldeb Arholiad

Absenoldeb â thâl er mwyn sefyll arholiadau ac adolygu ar gyfer astudiaethau a gymeradwywyd.

Tanysg rifiadau proffesiynol

Byddwn yn talu'r ffioedd aelodaethar gyfer un gymdeithas broffesiynol perthnasol.

Cydbwysedd Gwaith/Bywyd

Gweithio Hyblyg

Patrymau gweithio hyblyg, gan gynnwys rhannu swydd.

Buddiannau Teithio a Thrafnidiaeth

Amrywiaeth o fuddiannau teithio a thrafnidiaeth. Mynediad at gynllun aberthu cyflog beicio i'r gwaith, sy'n eich galluogi i brynu beic gwerth hyd at £4k.

Buddiannau Siopa a Hamdden

Amrywiaeth o ostyngiadau mewn siopau ar-lein a phrofiadau hamdden drwy Mylifestyle.

Cyllid

Benthyciadau Di-log

Ar gyfer tocynnau tymor a/neu

ar gyfer tocynnau tymor a/neu feiciau a chyfarpar diogelwch yn ogystal â chynllun blaendal tenantiaeth

Hwb Addysg Ariannol sy'n rhoi arweiniad ar sut i reoli eich arian gan gynnwys gwybodaeth am sgoriau credyd, pensiynau, prynu eich cartref cyntaf a dod yn rhydd o ddyled.

Iechyd a Llesiant

Cynllun Beicio i'r Gwaith

Rydym yn cynnig mynediad at gynllun aberthu cyflog Beicio i'r Gwaith. Mae hyn yn golygu ein bod yn rhoi benthyc beic i chi gymudo i'r gwaith fel budd di-dreth

Iechyd Galwedigaethol

Mynediad at wasanaeth cynghori Gofal Iechyd Duradiamond.

Gofal Llygaid

Profion llygaid am ddim.

Gwasanaeth Cymorth i Gyflogeion

Mae mynediad at Workplace Wellness ar gael i chi a'ch teulu

Clwb Gymdeithasol a Chwaraeon

Cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o ostyngiadau a digwyddiadau â chymhorthdal.

Gostyngiadau Iechyd

Darperir gostyngiadau dewisol gan nifer o ddarparwyr allanol a chlybiau iechyd.

Buddiannau Lleol

Mae'r rhain yn amrywio o ranbarth i ranbarth.

Absenoldeb Arbennig

Cynigir absenoldeb ychwanegol â thâl i gyflogeion sy'n cymryd rhan mewn dyletswyddau cyhoeddus, gweithgareddau undebau llafur, lluoedd arbennig/hyfforddedig ac ar gyfer cynrychiolwyr iechyd a diogelwch.

Elusen ar gyfer Gweision Sifil

Darperir cymorth a chynghori i filoedd o weithwyr sifil, blaenorol a phresennol, pan fydd eu hangen arnynt.

Headspace

Mynediad am ddim at Headspace, sef ap ymwybyddiaeth ofalgar, myfyrio a chysgu

Rhoi wrth Ennill

Gallwch wneud didyniadau rheolaidd o'ch cyflog er mwyn cefnogi elusen o'ch dewis. Mae hyn yn syml ac yn effeithlon o ran treth.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn frwd dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym yn rhoi'r brwdfrydedd hwnnw ar waith drwy'r camau a gymerwn.



Mae APHA yn ymrwymedig i fod yn sefydliad lle mae tegwch a chynhwysiant yn ganolog i bob un o'n cydberthnasau gwaith. Yn APHA, rydym am sicrhau bod gennych amgylchedd gwaith parchus, croesawgar a diddorol, sy'n rhydd rhag gwahaniaethu ni waeth beth fo'ch oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol

a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir cymdeithasol, gweithgarwch undeb llafur, cyfrifoldebau gofalu neu batrwm gwaith. Rydym yn annog ceisiadau gan bobl niwroamrywiol a chredwn mai dim ond drwy gael cymysgedd o syniadau a ffyrdd o

feddwl y gallwn sicrhau diwylliant sy'n cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel.

Mae gennym nifer o rwydweithiau staff ymarferol, gan gynnwys Oedran, Iechyd Meddwl, Canser, Gofalwyr, Anabledd, Gwladolion yr UE, Lleiafrifoedd

Ethnic, Ffydd, Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol (LGBAT+), Symudedd Cymdeithasol, Menywod a Chydbwysedd Bywyd a Gwaith Cânt eu cefnogi gan uwch-hyrwyddwyr a'u hannog i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu ein sefydliad.

Rydym yn cynnig datblygiad gyrfa drwy amrywiaeth o gynlluniau talent, mentora, nawdd a gwrth-fentora yn fewnol ac ar draws y Gwasanaeth Sifil cyfan. Mae ein huwch-arweinwyr yn siarad mewn ffordd ddilys a brwd am yr hyn y maent yn ei wneud yn bersonol i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn hybu ac yn cefnogi amrywiaeth eang o batrymau gwaith hyblyg er mwyn galluogi'r staff i gydbwysu cyfrifoldebau cartref a gwaith, ac rydym yn trin pobl yn deg ni waeth beth fo'u trefniadau gwaithio.

Mae cynnwys pob un o'n cyflogeion yn bwysig iawn.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn frwd dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym yn rhoi'r brwdfrydedd hwnnw ar waith drwy'r camau a gymerwn.

Yn APHA, rydym am sicrhau bod pawb yn teimlo fel petaent yn perthyn yma. Rydym yn cydnabod y bydd pawb yn dod atom o gefndiroedd gwahanol, gydag amrywiaeth o brofiadau gwahanol.

Ni fyddwn yn goddef unrhyw wahaniaethu, bwlio, aflonyddu, erledigaeth na stereoteipio negyddol. Ein nod yw sicrhau amgylchedd gwaith lle rydych yn teimlo eich bod yn perthyn a bod gennych lais, ni waeth beth fo'ch swydd na'ch graddfa.

[Gallwch ddarllen mwy yn ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.](#)

Fel cyflogwr Hyderus o Ran Anabledd, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl yn gadarnhaol. Rydym yn ymrwymedig i wneud addasiadau yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau y gall pobl anabl

gymryd rhan lawn nid yn unig yn y broses recriwtio a dethol ond hefyd pan fyddant yn cael eu penodi i'w swydd. Rydym yn cynnig Cynllun Cyfweiliad Gwarantedig i bob ymgeisydd anabl sy'n darparu tystiolaeth ei fod yn bodloni'r gofynion sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, fel y nodir yn y pecyn i ymgeiswyr hwn.

Cysylltwch â ni ar unrhyw gam o'r broses recriwtio i drafod sut y gallwn eich helpu chi, p'un a oes gennych nam corfforol, cyflwr iechyd meddwl neu os ydych yn unigolyn niwroamrywiol.

Ar ôl i chi gael eich penodi, bydd eich rheolwr llinell yn gweithio gyda chi i nodi sut y gall roi addasiadau rhesymol ar waith i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith.



Pethau y mae angen i chi eu gwybod

Gwiriadau Cyn-Cyflogaeth

Mae pawb sydd wedi'u cyflogi yn y Gwasanaeth Sifil yn destun gwiriadau diogelwch.

Cynhelir y gwiriadau diogelwch hyn, a elwir yn wiriadau cyn-cyflogaeth, i ddilysu eich: hunaniaeth, hanes cyflogaeth; hawl i weithio; cymhwysedd o dan reolau cenedligrwydd; ac unrhyw gollfarnau troseddol heb eu disbyddu.

Mae'r gwiriadau hyn yn sicrhau bod gan ymgeiswyr hawl i weithio yn y DU a'u bod yn meddu ar y gonestrwydd, yr uniondeb a'r gwerthoedd ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth.

Yn dibynnu ar lefel y gwiriadau sydd eu hangen ar gyfer y rôl, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu o leiaf dair dogfen fel y bydd gennym dystiolaeth o'ch hunaniaeth, eich cenedligrwydd, eich cyfeiriad parhaol llawn, eich llofnod a'ch dyddiad geni.

Byddai'r rhain yn cynnwys:

- Pasbort Prydeinig Cyfredol
- Tystysgrif Geni – a gyflwynwyd o fewn 12 mis i'r enedigaeth
- Cyfriflen banc, cymdeithas adeiladu neu gerdyn credyd*

• Trwydded yrru gyfredol ar ffurf cerdyn â llun

• Bil cyfleustodau gwreiddiol*

• Tystysgrif priodas/Tystysgrif partneriaeth sifil

• Llythyr gan bennaeth ysgol neu goleg (os ydych dan 19 oed ac mewn addysg llawn amser o hyd)

Rhaid i ddogfennau sydd wedi'u nodi â * fod wedi'u dyddio **o fewn y 3 mis diwethafa** dangos eich cyfeiriad cyfredol yn glir.

Byddwch yn cael copi o'r rhestr lawn o ddogfennau derbyniol os byddwn yn penderfynu gwneud cynnig o gyflogaeth i chi

D.S. Dim ond dogfennau gwreiddiol a dderbynnir; ni ellir derbyn llungopiau na dogfennau ar-lein (e.e. cyfriflenni banc, e-filiau, eP60au ac ati).



Pethau y mae angen i chi eu gwybod

A allaf wneud cais os nad wyf yn was sifil ar hyn o bryd?

Gallwch. Mae'r rolau hyn ar agor i bawb sydd wedi'u cymhwyso'n addas.

A yw'r rôl hon yn barhaol?

Ydy, mae'r rôl hon yn cael ei chynnig ar sail barhaol.

A yw'r rôl hon yn addas ar gyfer gweithwyr rhan amser?

Mae'r rôl hon wedi cael ei hysbysebu fel swydd sy'n addas ar gyfer gwaith hyblyg, llawn amser, rhannu swydd a rhan amser. Bydd angen i chi drafod trefniadau gweithio pan gewch gynnig swydd.

A fydd y rôl yn cynnwys teithio?

Bydd. Bydd yn ofynnol i chi deithio fel rhan o'r rôl hon.

A allaf hawlio unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn ystod y broses recriwtio yn ôl?

Na. Yn anffodus ni fyddwn yn gallu eich ad-dalu.

Cymorth Adleoli

Gall rhai o'n lleoliadau ddenu cymorth adleoli. Caiff hyn ei drafod wrth wneud y cynnig.

Pa genedligrwydd sydd ei angen arnaf er mwyn gwneud cais?

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyflogaeth yn y rôl hon, rhaid i chi fod yn wladolyn o un o'r gwledydd canlynol:

Yn agored i wladolion y DU, y Gymanwlad a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a gwladolion penodol nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Ers mis Ionawr 2021, mae'r swydd ar agor i'r grwpiau canlynol:

- gwladolion y DU
- gwladolion Gweriniaeth Iwerddon
- gwladolion gwledydd y Gymanwlad
- gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sydd â (neu sy'n gymwys i gael) statws o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)
- gwladolion perthnasol yr AEE neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil
- gwladolion perthnasol yr AEE neu Dwrci sydd wedi ennill yr hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil
- aelodau penodol o deulu gwladolion perthnasol yr UE (Undeb Ewropeaidd) a Thwrci.

(*Nid yw dinasyddion y Gymanwlad nad ydynt eto yn y DU, nad oes ganddynt hawl preswyllo yn y DU ac nad oes ganddynt ganiatâd i ddod i'r DU yn gymwys i wneud cais.)

I gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys i wneud cais, ewch i Gov.UK

Pethau y mae angen i chi eu gwybod

A oes angen cliriad diogelwch?

Mae'r holl swyddi hyn yn gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gliriad diogelwch sylfaenol. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr sy'n cael swydd mewn rhai lleoliadau yn destun cliriad uwch oherwydd gofynion diogelwch y lleoliad hwnnw. Caiff cynigion gwaith ar gyfer y swyddi hyn eu gwneud ar sail teilyngdod. Dim ond ar ôl cael cynnig swydd y cynhelir y broses fetio diogelwch.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses fetio yn y ddolen ganlynol <https://www.gov.uk/guidance/security-vetting-and-clearance>

Pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud os oes gennych anabledd?

Mae DEFRA yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac felly'n rhan o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (i gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, ewch i <https://www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign>).

Os oes gennych anabledd sydd wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydych yn gymwys i gael eich ystyried ar gyfer y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Er mwyn cymhwyso, mae'n rhaid bod gennych nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd (I gael rhagor o wybodaeth am anabledd a gwmpesir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ewch i www.gov.uk/definition-of-disability-under-equality-act-2010).

Rydym yn ymrwymedig i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr yn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd a byddwn yn ceisio dileu unrhyw rwystrau fel na fyddwch o dan anfantais yn ystod y broses ddethol/recriwtio/cyfweliad/asesiad gan gynnwys; caniatáu amser ychwanegol yn ystod profion dethol; sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi mewn fformat hygrych neu; drwy ddarparu hyfforddiant. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyfweld â phob ymgeisydd ag anabledd sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl y gwnaed cais amdani.

Os ydych yn teimlo y gall fod angen gwneud addasiad rhesymol ar eich cyfer, neu os hoffech drafod y cynllun hyderus o ran anabledd yn fanylach, cysylltwch â ni yn y lle cyntaf. Os hoffech gael copi caled o'r wybodaeth, neu mewn fformat amgen, e.e. Sain, Braille neu ffont mawr, cysylltwch â: deffrarecruitment.grs@cabinetoffice.gov.uk

Pethau y mae angen i chi eu gwybod

Cynllun Hyderus o Ran Anabledd i Bobl Anabl

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn croesawu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Felly, rydym yn cynnal Cynllun Hyderus o Ran Anabledd i ymgeiswyr sydd ag anableddau sy'n bodloni'r meini prawf dethol gofynnol. Dylech nodi ar eich ffurflen gais os hoffech gael eich ystyried o dan y cynllun hwn.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Defra yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith. Rydym yn ymrwymedig i fod yn sefydliad y mae tegwch a chydraddoldeb yn ganolog i ddull gweithredu'r busnes a'r cydberthnasau gwaith, a lle y mae'r diwylliant sefydliadol yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwerthoedd hyn. Yn Defra, mae gennych yr hawl i amgylchedd gwaith sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu, bwllo ac erledigaeth ni waeth beth fo'ch hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, oedran, crefydd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oriau gwaith, aelodaeth o undeb llafur neu weithgarwch undeb llafur.

Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil

Caiff unigolion eu dethol i'w penodi i'r Gwasanaeth Sifil drwy deilyngdod, ar sail cystadleuaeth agored a theg, fel yr amlinellir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil ddwy brif swyddogaeth:

Rhoi sicrwydd bod unigolion yn cael eu dethol i'w penodi i'r Gwasanaeth Sifil drwy deilyngdod ar sail cystadleuaeth agored a theg.

Gwrando a gwneud penderfyniadau ynghylch apeliadau a wnaed gan Weision Sifil o dan God y Gwasanaeth Sifil sy'n nodi gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil – Gonestrwydd, Hygrededd, Didueddrwydd a Gwrthrychedd.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach ar wefan Comisiwn y Gwasanaeth Sifil

<http://civilservicecommission.independent.gov.uk/>.





Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Veterinary
Medicines
Directorate

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol neu broblemau technegol, anfonwch e-bost i: defrarecruitment.grs@cabinetoffice.gov.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd y manylir arni yn y pecyn hwn, anfonwch e-bost i: HRResourcingSupport@defra.gov.uk gan ddyfynnu'r cyfeirnod yn y blwch pennawd.

